# Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif. 5

**LC5(3)-06-09 Papur 2 - Ymateb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i Ymgynghoriad Pwyllgor y Cynulliad**

## Cyflwyniad

1 Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC/WLGA) yn cynrychioli'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru; mae awdurdodau'r tri pharc cenedlaethol, y tri gwasanaeth tân cyfunol a 4 awdurdod yr heddlu yn aelodau cyswllt.

2 Diben y WLGA yw darparu cynrychiolaeth i'r awdurdodau lleol o fewn fframweithiau polisi, gan adlewyrchu blaenoriaethau allweddol ein haelodau a darparu ystod eang o wasanaethau sy'n ychwanegu gwerth i Lywodraeth Leol Cymru a'u cymunedau.

3 Mae'r WLGA yn falch o gael y cyfle i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ar yr iaith Gymraeg. Byddwn hefyd yn cael cyfle i ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol tra'n rhoi tystiolaeth i'r pwyllgor deddfwriaethol ar y 24ain o Fawrth.

4 Mae'r WLGA hefyd yn croesawu ymrwymiadau Llywodraeth y Cynulliad ym maniffesto 'Cymru'n Un' i ddatblygu Mesurau, os caiff cymhwysedd deddfwriaethol ei gymeradwyo, er mwyn cadarnhau statws swyddogol i'r Gymraeg a'r Saesneg; sicrhau hawliau ieithyddol wrth ddarparu gwasanaethau; a sefydlu Comisiynydd Iaith.

5 Trafodwyd y Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig ar yr iaith Gymraeg yng nghyfarfod llawn o Gyngor y WLGA ym mis Chwefror eleni, lle cynrychiolir pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Rhoddwyd cefnogaeth unfrydol, traws-bleidiol i'r egwyddor y dylai materion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg gael eu datganoli i Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy'r LCO arfaethedig.

6 Mae ein hymatebion i'r cwestiynau ymgynghori penodol ar yr LCO iaith Gymraeg wedi eu nodi isod:

## Ymgynghoriad Cyffredinol

### 1 A ddylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru allu deddfu mewn perthynas â hyrwyddo a defnyddio'r iaith Gymraeg?

O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, nid oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru unrhyw bwerau i ddeddfu ar yr iaith Gymraeg. Mae'r WLGA yn credu y dylai Cynulliad Cenedlaethol gael deddfu ar hyrwyddo a defnyddio'r iaith Gymraeg. Byddai'r cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig yn rhoi'r pwerau angenrheidiol i'r Cynulliad i wneud hyn.

Mae'n anodd dod o hyd i enghraifft mwy addas o gais LCO ag iddo gyfiawnhâd llwyr dros gael penderfyniadau deddfwriaethu ar y pwnc yn cael eu gwneud yng Nghymru. Mae'r LCO arfaethedig yn ymwneud yn llwyr â Chymru, ei phobl a'i diwylliant.

### 2 A ddylai Cynulliad Cenedlaethol Cyrmu allu deddfu mewn perthynas â pha wasanaethau ddylai'r cyhoedd allu eu cael yn ddwyieithog?

Mae'r WLGA o'r farn y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru gael yr hawliau i ddeddfu ar wasanaethau y dylai'r cyhoedd eu derbyn yn ddwyieithog.

Byddai'r cymhwysedd a geisir yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru ddiweddaru'r fframwaith ddeddfwriaethol presennol o dan Ddeddf 1993, gan edrych ar faterion ychwanegol sydd wedi codi dros y 15 mlynedd ddiwethaf. Yng nghyfarfod llawn Cyngor WLGA yn Chwefror 2009, cytunodd aelodau yn unfrydolg gyda'r egwyddor hwn.

### 3 A ddylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru allu deddfu mewn perthynas â rhyddid pobl i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd?

Mae WLGA yn cefnogi'r egwyddor y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru allu deddfu ynghylch rhyddid pobl i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd. Yng nghyfarfod llawn Cyngor WLGA yn Chwefror 2009, cafwyd cytundeb unfrydol i'r egwyddor.

## Ymgynghoriad Manwl

### 4(a). Beth yw eich barn am yr egwyddor cyffredinol y dylid rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad yn y maes a nodir ym Mater 20.1?

Mae'r WLGA o'r farn y dylai'r cymhwysedd deddfwriaethol sy'n cael ei geisio o dan Mater 20.1 gael ei gyflwyno i'r Cynulliad.

Mae holl awdurdodau lleol Cymru wedi bod yn gweithio i gynlluniau iaith Gymraeg, yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ers blynyddoed lawer nawr. Serch hynny, dros y 15 mlynedd diwethaf, y mae wedi dod i'r amlwg fod rhai o'r prosesau presennol sy'n rhaid ymgymryd â nhw fod yn afrosgo heb wella gwasanaethau iaith Gymraeg o reidrwydd. Yn ogystal, mae bylchau presennol yn y ddeddf y gellid eu tynhau er mwyn gwella y modd y mae darpariaeth iaith Gymraeg mewn awdurdodau cyhoeddus yn cael ei ddatblygu.

Hoffai'r WLGA weld fframwaith gyfreithiol mwy modern a syml i reoli darpariaeth iaith Gymraeg. Byddai'r LCO yn galluogi hyn i ddigwydd trwy Fesurau yn y dyfodol.

**4(b). Beth yw eich barn am yr egwyddor cyffredinol y dylid rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad yn y maes a nodir ym Mater 20.2?**

Cred y WLGA y dylai'r cymhwysedd deddfwriaeth yn y maes a nodir ym Mater 20.2 gael ei osod yn nwylo'r Cynulliad.

**5. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y byddai Mater 20.1 yn adleisio'r egwyddorion sydd wrth wraidd Deddf 1993 ac yn adeiladu ar yr egwyddorion hynny a hefyd yn caniatau i'r Cynulliad ddeddu ar ystod y swyddogaethau sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac adeiladu ar y swyddogaethau hynny.**

**A ydych yn cytuno y bydd yn caniatau i'r Cynulliad wneud hyn? Os na, sut y dylid ei ddiwygio?**

Mae'r WLGA yn cytuno fod Mater 20.1 yr LCO yn adleisio ac yn adeiladu ar yr egwyddorion a amlinellir yn neddf iaith Gymraeg 1993, ac y dylai'r Cynulliad gael yr hawl i ddeddfu ac adeiladu ar yr ystod presennol o swyddogaethau.

Mae awdurdodau lleol wedi gweithio yn agos ac yn llwyddiannus iawn gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg o'r dechrau un, gan weithio o fewn egwyddorion Deddf 1993, sef hyrwyddo a chynorthwyo'r defnydd o'r iaith Gymraeg ac ystyried sut i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Byddai adeiladu ar yr ystod presennol o swyddogaethau yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddeddfu ar faterion ynghylch yr iaith Gymraeg er mwyn cyflawni'r weledigaeth a nodir yn Iaith Pawb (2003) o greu "Cymru gwbl ddwyieithog…lle y gall pobl ddewis byw eu bywydau naill ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg a lle mae bodolaeth y ddwy iaith yn fater o falchder a chryfder i ni i gyd."

**7.Beth yw eich barn ar gwmpas y Gorchymyn arfaethedig o ran y categorïau o bersonau y byddai'n caniatau i'r Cynulliad osod dyletswyddau arnynt i ddarparu gwasanaethau penodol yn ddwyieithog i'r cyhoedd? (Mater 20.1 (a) – (i)**

Mae'r WLGA yn hapus gyda phawb sy'n cael eu cwmpasu yn y rhestr (a-h). Mae hwn yn restr fanwl a chadarn sy'n rhoi eglurdeb i'r sefyllfa gymylog a chymysglyd sy'n bodoli ar hyn o bryd o dan adran 6(1) o Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Mae ein haelodau – yr 22 awdurdod lleol, y 3 parc cenedlaethol a'r awdurodau heddlu a thân ac achub – oll yn cael eu cwmpasu gan is-adran 20.1a.

Mae'r angen am fwy o eglurder wedi dod yn fwy amlwg wrth i ddarparwyr gwasanaeth newydd ddod i'r fei ac wrth i strwythurau gwasanaethau cyhoeddus penodol newid. Mae'r rhestr a ddarperir o dan Fater 20.1 (a) i (h) yn yr LCO arfaethedig i weld yn delio gyda hyn yn llwyddiannus.

**7. A yw'r diffiniad a ddefnyddir ar gyfer "awdurdodau cyhoeddus" ar gyfer y Mater hwn yn briodol? Os na, pa ddiffiniad y dylid ei ddefnyddio a pham?**

Mae'r diffiniad o 'awdurdodau cyhoeddus' yn holl bwysig i ddatblygiad unrhyw Fesurau yn y dyfodol allai ddeillio o'r LCO. Cred y WLGA fod y diffiniad o'awdurdodau cyhoeddus' yn un addas, gan ei fod yn ddiffiniad o adran 6 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Mae'r diffiniad yn cwmpasu awdurdodau lleol.

**8 Byddai Mater 20.1 yn caniatau i ddyletswyddau gael eu gosod ar 'wasanaethau telathrebu' a 'gwasanaethau post a swyddfeydd post'. A yw'r diffiniadau a ddefnyddir yn angenrheidiol ac yn briodol?**

**Os na, sut y dylid mynd ati i'w hailddrafftio a pham y dylid gwneud hyn?**

Mae'r WLGA o'r farn bod y diffiniadau a gynigir ar gyfer 'gwasanaethau telathrebu' a 'gwasanaethau post a swyddfeydd post' yn briodol.

**9 Mewn perthynas â Mater 20.1, isadran (e) – personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd sy'n derbyn cyfanswm o £200,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol**

**1 A yw'n angenrheidiol nodi'r diffiniad o 'arian cyhoeddus' yn y Gorchymyn arfaethedig? Os felly, a yw'n briodol?**

**2 Byddai dyletswyddau ond yn cael eu gosod ar bobl sy'n derbyn mwy na £200,000. Ai £200,000 yw'r trothwy cywir i'r Cynulliad gael pwerau deddfu?**

Ymddengys y diffiniad o 'arian cyhoeddus' yn yr LCO fel un clir a synhwyrol, ac mae'r WLGA o'r farn bod y trothwy £200,000 a gynigir yn addas a rhesymol.

Serch hynny, buasem yn gwerthfawrogi mwy o eglurder ar y diffiniad o 'arian sydd ar gael yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru'. A fyddai hyn yn ymdrin a phersonau yn derbyn £200,000 neu mwy o arian cyhoeddus (e.e. ar ffurf grantiau) drwy awdurdod lleol.

**10. A yw cwmpas Mater 20.2 yn briodol? A fydd yn caniatau i'r Cynulliad ddeddfu yn y dyfodol er mwyn**

**gweithredu'r cynnig fel y mae wedi'i amlinellu yn y Memorandwm Esboniadol?**

Cred y WLGA fod cwmpas Mater 20.2 yn addas, ac mae i weld yn ddigon eang ar gyfer cwmpasu pwrpasau deddfwriaethau yn y dyfodol.

Byddai'r WLGA yn awyddus i drafod unrhyw Fesurau penodol a fyddai'n cael eu datblygu o dan gwmpas Mater 20.2 gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan ystyried sut y byddai unrhyw gynigion yn effeithio ar lywodraeth leol.

### 11 Beth yw eich barn ynghylch Erthyglau 4 a 5 y Gorchymyn arfaethedig sy'n ymdrin â chymhwyso'r Gorchymyn arfaethedig i gyrff y Goron?

Mae'r WLGA yn cefnogi Erthyglau 4 a 5 yn y gorchymyn arfaethedig o ran newidiadau sydd angen eu gwneud i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a swyddogaethau cyrff y Goron.

Mae'r addasiadau i baragraffau presennol yn Atodlen 5 Deddf 2006 i'w gweld yn darparu'r Cynulliad gyda'r cymhwysedd angenrheidiol i greu Mesurau a fyddai'n osgoi sefyllfa lle byddai cyrff y Goron yn darparu lefel gwahanol o wasanaeth i weddill y sector gyhoeddus.

### 12 A oes unrhyw faterion eraill a fyddai'n dylanwadu ar effeithiolrwydd unrhyw Fesurau yn y dyfodol gan nad yw'r Gorchymyn arfaethedig yn ddigon eang? Os felly, a allwch awgrymu sut y byddai'n rhaid ehangu'r Gorchymyn arfaethedig er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn?

Mae gan awdurdodau lleol rôl bwysig i'w chwarae fel darparwyr gwasanaethau cyhoeddus allweddol ar draws ystod o sectorau yng Nghymru. Mae'r WLGA yn edrych ymlaen i weithio yn agos gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru pe baent yn mynd ati i ddrafftio Mesurau sy'n deillio o'r LCO hwn.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Heledd Bebb – Swyddog Polisi (Hamdden, Diwylliant, Twristiaeth a'r Iaith Gymraeg)

heledd.bebb@wlga.gov.uk

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Ty Llywodraeth Leol
Rhodfa Drake
Caerdydd
CF10 4LG

Ffôn:029 2046 8600